| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO.** |
| **DYDDIAD** | **26, MEDI, 2013** |
| **TEITL** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **GOFYN I'R PWYLLGOR SEFYDLU GWEITHGOR I ADOLYGU'R CYFANSODDIAD.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Wrth adrodd i'r Cyngor llawn ar yr 2il o Fai, 2013 ar ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, fe eglurais fod gwaith ar y gweill dan arweiniad y Gymdeithas sy'n cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i lunio Cyfansoddiad safonol ar gyfer cynghorau unedol Cymru. Yr ysgogiad ar gyfer y gwaith oedd y ffaith bod pob Cyngor yng Nghymru bellach gyda threfn weithrediaeth (Arweinydd a Chabinet), a bod gwahaniaethau sylweddol yn amlygu eu hunain rhwng y gofynion cyfreithiol yng Nghymru o'u cymharu â rhai Lloegr yn sgil deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru.

2. Mae'r Cyfansoddiad safonol bellach yn barod ac mae'n amserol ystyried ei fabwysiadu. Mae'r Cyfansoddiad yn parhau i ganiatau amrywiadau lleol o Gyngor i Gyngor, ond y gobaith yw y bydd yn rhoi gwell cysondeb ar ddehongliadau o'r Cyfansoddiad ar draws Cymru ac y bydd ffurf y ddogfen yn haws i'w deall.

3. Dan y trefniadau newydd, gan y Pwyllgor Archwilio mae'r swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu corfforaethol a gwneud argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Ystyrir bod Cyfansoddiad y Cyngor a'i gynnwys yn rhan annatod o drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu corfforaethol da, ac mai'r Pwyllgor Archwilio felly yw'r pwyllgor priodol i roi ystyriaeth i'r ddogfen gyfansoddiadol. Y Cyngor Llawn sydd a'r hawl i fabwysiadu y Cyfansoddiad.

4. Mae gwaith manwl i'w wneud i edrych ar fanylion y Cyfansoddiad newydd. Byddai'n haws i'r gwaith hwn gael ei gwblhau gan Weithgor Tasg a Gorffen yn hytrach na'r Pwyllgor llawn.

5. Argymhellir felly bod y Pwyllgor yn codi gweithgor o hyd at saith aelod sydd â diddordeb yn y gwaith i ymgymryd â'r gwaith manwl o ystyried y ddogfen gyfansoddiadol safonol a chynnig pa amrywiadau

lleol i Wynedd sydd yn addas. Nid oes raid i weithgor o'r fath fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol ond rwy'n awgrymu y byddai'n fanteisiol yn y pen draw pe gellid cael cynrychiolaeth o wahanol grwpiau ar y gweithgor.

6. O ran amserlen rhagwelir y bydd y gweithgor yn ymgymryd â'i waith ac yn ymgynghori gyda phwyllgorau perthnasol eraill dros y misoedd nesaf gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ac yna cyflwyno'r ddogfen gyfansoddiadol newydd i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod blynyddol nesaf.

**ARGYMHELLIAD.**

7. Bod y Pwyllgor yn sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen o hyd at saith aelod i adolygu Cyfansoddiad y Cyngor.